CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN

**Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun 24ain o Fehefin 2024 am 7.30yh yn y Neuadd, Llanegryn.**

Presennol; Cyng. Alwyn Roberts, Lona Harris, William T Davies, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies, Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) ynghyd a Shan Jones a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Alwyn Roberts. Roedd croeso arbennig i'r Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) nad oedd wedi mwynhau yr iechyd gorau yn ddiweddar.

   Roedd ymddiheuriad i law gan Cyng WRP Jones.
   Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda.
   Nid oedd unnrhyw ddatganiadau.

2. Cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

Croesawyd Robin Clark, Bodegryn, sy'n rhedeg Pwyllgor Sied Egryn. Eglurodd y cefndir, sef eu bod wedi cael grant o £25 mil gan Mantell Gwynedd i dynnu lawr hen sied ar gefn y Neuadd, ac ymestyn Sied Egryn gyda adeilad newydd.(I'w wario cyn diwedd Rhagfyr 2024) Hefyd rhoi 'awning' dros ardal patio fyddai ar gael i ddigwyddiadau yn y Neuadd.
Gan fod y Neuadd yn enw y Cyngor Cymuned, roedd angen I'r Cais Cynllunio fod yn enw y Cyngor Cymuned. (roedd yr e-bost gwreiddiol gan Robin wedi ei yrru gan y Clerc i bawb ymlaenllaw.)
Trafodwyd hyn, a chytunwyd gan bawb y gallai'r Clerc ddanfon nodyn e-bost i gadarnhau y gallai'r Cais Cynllunio fod yn enw y Cyngor Cymuned.

Trafodwyd fod angen edrych i mewn ymhellach i'r yswiriant sydd gan y Cyngor Cymuned yn y cyd-destun yma. Yn y cyswllt yma hefyd, nodwyd neges y byddai Kate Cope, Cadeirydd y Neuadd yn danfon cyfansoddiad y Neuadd atom, dyddiedig 1959. Pan fyddai i law, gwelwyd y dylid gwahodd cynrychiolydd o'r Neuadd a'r Sied atom I'r Cyngor Cymuned I drafod ymhellach.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fai** ar gynnig Cyng.Lona Harris a'i eilio gan Cyng Eurgain Davies.

4. **Materion yn codi a materion eraill.**

a) **Gardd Goffa –** adroddwyd eto fod y gwaith yn mynd yn ei flaen yn wych. Roeddynt bron yn barod ar gyfer y blodau, a oedd yn cael ei drefnu gan y Cynghorwyr er mwyn lleihau costau. Diolchwyd yn fawr i Sian am gynorthwyo efo hyn. Byddai rhaid trafod y fainc y tro nesaf.

   Cadarnhawyd lliw y rendr, a byddai Cyng Lona Harries yn cadarnhau drwy e-bost.

Yn dilyn trafod maith, cytunwyd ar gynnig Cyng William Davies a'I eilio gan Cyng Eurgain Davies, i gyfrannu rhan daliad o £15,000 (cyn TAW) I'r contractor G T Davies Ltd. Cytunodd Cyng Catrin Rutherford I fynd I fanc HSBC Dolgellau I drosglwyddo holl arian y Cyfri Cadw I'r Cyfri Cyfredol (ag eithrio £5) Hefyd byddai yn ceisio cael y ffurflenni perthnasol I ychwanegu enwau Cyng Lona Harries a Eurgain Davies iddynt arwyddo ar y cyfri.

Adroddwyd fod cyfarfod o Ffrindiau Eglwys Llanegryn yn awyddus I gofnodi diolch I'r Cyngor Cymuned am y gwaith yng nghyswllt yr Ardd Goffa.

b) **Toiledau yn Llanegryn** – nid oedd ymateb gan Scrub a Dub yn gofyn am eglurhad am anfoneb oedd i law am gyfanswm o £150.00. Roedd rhaid atgoffa. Os nad oedd ymateb boddhaol byddai rhaid ystyried a ellir parhau gyda'r contract. Diolchwyd yn fawr iawn I Lawrence Ellis am y gwaith trwsio oedd ei angen yn toiledau'r bechgyn.

(Nodwyd fod angen trafod adnewyddu y toiledau yn fwy manwl, ac y dylid gwneud hyn ar ol cwbwlhau prosiect yr Ardd Goffa)

c) **Llwybr ger Peniarth Uchaf** – trafodwyd safle y llwybr a oedd yn destun cwyn. Roedd dargyfeiriad drwy fuarth fferm, ac roedd yn ymdangos nad oedd problem. Byddai y Clerc yn cysylltu gyda'r Adran Llwybrau eto, er nad oedd o fewn ffiniau Cymuned Llanegryn. Awgrymwyd cael arwyddion, hefyd sicrhau fod y ffarmwr yn hapus gyda'r sefyllfa.

Nodwyd hefyd fod angen edrych beth oedd sefyllfa y llwybr o'r Eglwys i Penceunant.

d) **Ffordd ddi-ddosbarth o Roslefain i gyfeiriad y Ffordd Ddu** – nid oedd ymateb pellach

e) **Polisi yswiriant y Cyngor** – roedd copi o'r Polisi cyfredol wedi ei ddanfon allan I bawb ymlaenllaw. Ar gynnig Cyng.Lona Harris a'i eilio gan Cyng Eurgain Davies a chytundeb pawb, cadarnhawyd fod y polisi yn ddigonol.

f) **Cyllideb y Cyngor 2024-25** – aethpwyd drwy y drafft a oedd wedi ei baratoi gan y Clerc. Gyda rhai newidiadau, cytunwyd fod pawb yn hapus gyda hyn.

**5.Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw faterion i law. Roedd y Clerc wedi diwedaru manylion ef fel Clerc I'r Parc Cenedlaethol.

**6. Materion Cyllid.**

a) Cyfrifon 2023-24 – yn dilyn y cadarnhau yn y cyfarfod diwethaf, nid oedd y cyfrifon yn ol gan yr Archwilydd mewnol, ond byddent yn cael eu danfon ymlaen I'r Archwilydd Allanol mor fuan a phosib. Roedd yr hysbyseb wedi ei rhoi ar y wefan, ynghyd a'r hysbysfwrdd yn Llanegryn

b) Cytunwyd, ar gynnig Cyng Lona Harries a'I eilio gan Cyng Eurgain Davies I dalu anfoneb HG Web Designs am gost dylunio y wefan, sef £310.

c) Cytunwyd, ar gynnig Cyng Lona Harries a'I eilio gan Cyng Eurgain Davies I dalu anfoneb Lawrence Ellis am swm o £50 am wneud gwaith yn y toiledau yn Llanegryn.

d) Cytunwyd, ar gynnig Cyng William Davies a'I eilio gan Cyng Catrin Rutherford I dalu cydnabyddiaeth chwarter cyntaf y Clerc, sef £400.01 ynghyd a HMRC £100.

**e) Ceisiadau am arian;**

- Papur Bro Dail Dysynni – cytunwyd ar gynnig Cyng Catrin Rutherford a'I eilio gan Cyng William Davies I gyfrannu £150.

7. **Gohebiaeth.**

   a) Roedd e- bost gan **Un Llais Cymru ynglyn a amserlen camau cyn etholiad**, a beth oedd yn berthnasol I'r Cyngor.

   b) Roedd cadarnhad gan **Panel Annibynnol Cymru** (Llywodraeth Cymru) am raddfeydd cydnabyddiaeth ariannol Cynghorwyr am 2024-25.

   c) Roedd llythyr gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru Ken Skates ynglyn a mater cyfyngiad 20mya. Penderfyniad y Cynghorwyr oedd cadw I'r sefyllfa bresennol yn yr ardal.

8. **Ystyried Sedd wag ar y Cyngor.**

   Roedd un enw i law wedi mynegi diddordeb i fod yn rhan o'r Cyngor. Byddai'r Clerc yn cysylltu ac yn ymdrin a'r hysbysebu ffurfiol.

9. **Unrhyw fater arall.**

- Roedd pryder mawr am y ffordd newydd ym Machynlleth, yn arbennig lle roedd yr A493 yn ymuno gyda'r A487, lle roedd cerbydau yn mynd yn gyflym dros y bont newydd. Roedd damwain wedi bod yno eisoes. Gwelwyd y dylid danfon at Gyngor Gwynedd fel bod y cynllun yn cael ei ail-ystyried, a hefyd copio ein Haelod Seneddol/Senedd Cymru I mewn yn hyn.

- Os nad oedd modd cael trefn gyda ScrubaDub, cynigiodd Shan Jones y bydde hi yn cymryd gofal o lanhau dros yr haf. Diolchwyd yn fawr iawn.

- Trafodwyd mastiau ffon yr ardal, a bod yn bwysig sicrhau signal ym mhobman yn yr ardal.

- Diolchwyd I bawb am roi eu hamser I ymdrin a'r hen ffeiliau o'r cabinets yng nghefn llwyfan y Neuadd.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y NEUADD LLANEGRYN NOS LUN 29ain Gorffennaf 2024 , 7.30y.h.**

LLANEGRYN COMMUNITY COUNCIL

Minutes of a Council Meeting held on Monday 24th June 2024 at 7.30pm in the Hall, Llanegryn.

Present; Cllr. Alwyn Roberts, Lona Harris, William T Davies, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies, Bethan Lawton (Gwynedd Council) together with Shan Jones and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Alwyn Roberts. There was a special welcome to Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council) who had not enjoyed the best of health recently.

An apology was received from Cllr WRP Jones.

Expressions of interest were invited for issues on the agenda.

There were no statements.

2. Presentations by members of the public on an issue on the Agenda.

We welcomed Robin Clark, Bodegryn, who runs the Egryn Shed Committee. He explained the background, namely that they had received a grant of £25 thousand from Mantell Gwynedd to pull down an old shed at the back of the Hall, and extend the Egryn Shed with a new building. (To be spent before the end of December 2024) Also providing an 'awning' over a patio area that would be available for events in the Hall.

As the Hall is in the name of the Community Council, the Planning Application needed to be in the name of the Community Council. (the original email from Robin had been sent by the Clerk to everyone in advance.)

This was discussed, and everyone agreed that the Clerk could send an email note to confirm that the Planning Application could be in the name of the Community Council.

It was discussed that there is a need to look further into the insurance that the Community Council has in this context. In this connection too, a message was noted that Kate Cope, Chair of the Hall, would send us the constitution of the Hall, dated 1959. When it was in hand, it was seen that a

representative from the Hall and the Shed should be invited to the Community Council to discuss further.

3. The minutes of the Annual Meeting held on the 20th of May were confirmed on the proposal of Cllr. Lona Harris and seconded by Cllr Eurgain Davies.

4. Matters arising and other matters.

a) Memorial Garden - it was reported again that the work is progressing brilliantly. They were almost ready for the flowers, which were being arranged by the Councilors in order to reduce costs. A big thank you to Sian for helping with this. The bench would have to be discussed next time.

The colour of the render was confirmed, and Cllr Lona Harries would confirm by email.

Following a long discussion, it was agreed on the proposal of Cllr William Davies and seconded by Cllr Eurgain Davies, to contribute part of a payment of £15,000 (before VAT) to the contractor G T Davies Ltd. Cllr Catrin Rutherford agreed to go to the HSBC Dolgellau bank to transfer all the money from the Savings Account to the Current Account (except £5) She would also try to get the relevant forms to add the names of Cllr Lona Harries and Eurgain Davies to sign on the account .

It was reported that a meeting of Friends of Llanegryn Church was keen to record thanks to the Community Council for the work in relation to the Memorial Garden.

b) Toilets in Llanegryn - there was no response from Scrub and Dub asking for an explanation about an invoice that had been received for a total of £150.00. I had to be reminded. If there was no satisfactory response it would have to be considered whether the contract can be continued.

Many thanks were given to Lawrence Ellis for the repair work that was needed in the boys' toilets.

(It was noted that the renewal of the toilets needed to be discussed in more detail, and that this should be done after the completion of the Garden of Remembrance project)

c) Path near Peniarth Uchaf - the site of the path which was the subject of a complaint was discussed. There was a detour through a farmyard, and it appeared that there was no problem.

The Clerk would contact the Paths Department again, even though it was not within the

boundaries of the Community of Llanegryn. It was suggested to have signs, also to ensure that the farmer is happy with the situation.

It was also noted that it was necessary to look at the situation of the path from the Church to Penceunant.

d) Unclassified road from Roslefain in the direction of Ffordd Ddu - there was no further response

e) The Council's insurance policy - a copy of the current Policy had been sent out to everyone in advance. On the proposal of Cllr. Lona Harris and seconded by Cllr Eurgain Davies and everyone's agreement, it was confirmed that the policy was sufficient.

f) The Council's Budget 2024-25 - the draft that had been prepared by the Clerk was gone through. With some changes, it was agreed that everyone was happy with this.

5. Planning Matters

There were no issues at hand. The Clerk had updated his details as Clerk to the National Park.

6. Finance Matters.

a) Accounts 2023-24 - following the confirmation at the last meeting, the accounts were not back from the internal Auditor, but they would be forwarded to the External Auditor as soon as possible. The advertisement had been placed on the website, together with the notice board in Llanegryn

b) Agreed, on the motion of Cllr Lona Harries and seconded by Cllr Eurgain Davies To pay HG Web Designs' invoice for the cost of designing the website, which is £310.

c) It was agreed, on the proposal of Cllr Lona Harries and seconded by Cllr Eurgain Davies To pay Lawrence Ellis' invoice for a sum of £50 for doing work in the toilets in Llanegryn.

d) Agreed, on the motion of Cllr William Davies and seconded by Cllr Catrin Rutherford To pay the Clerk's first quarter remuneration, which is £400.01 plus HMRC £100.

e) Requests for money;

• Dail Dysynni Community Paper - Cllr Catrin Rutherford's proposal was agreed and seconded by Cllr William Davies To contribute £150.

7. Correspondence.

a) There was an email from Un Llais Cymru regarding the schedule of steps before an election, and what was relevant to the Council.

b) There was confirmation from the Independent Panel for Wales (Welsh Government) about Councillors' remuneration scales for 2024-25.

c) There was a letter from Welsh Government Cabinet Secretary Ken Skates regarding the issue of a 20mph limit. The decision of the Councilors was to keep the current situation in the area.

8. To consider a vacant Seat on the Council.

One name to hand had expressed an interest in being part of the Council. The Clerk would contact and deal with the formal advertising.

9. Any other matter.

• There was great concern about the new road in Machynlleth, particularly where the A493 joined the A487, where vehicles were speeding over the new bridge. There had already been an accident. It was seen that it should be sent to Gwynedd Council so that the plan is reconsidered, and also copy our Member of Parliament/Senedd Cymru into this.

• If it was not possible to get an arrangement with ScrubaDub, Shan Jones offered that she would take care of cleaning over the summer. Thank you very much.

• Telephone masts in the area were discussed, and that it is important to ensure a signal everywhere in the area.

• Everyone was thanked for giving their time to deal with the old files from the cabinets at the back of the Hall stage.

DATE OF NEXT MEETING;  LLANEGRYN HALL MONDAY 29th July 2024, 7.30pm.